YSGOL BRYNREFAIL

PÊL DROED CWPAN CYMRU dan 18
ROWND GYNTAF
YSGOL BRYNREFAIL v YSGOL GYFUN CAERGYBI

Ar noson hyfryd o Fedi fe gyfarfu'r ddau dîm am gêm gyntaf y tymor ar gae Brynrefail. O'r dechrau yr oedd yn ornest galed ac agos a bu rhaid i Carwyn Eddy arbed yn wych rhag ildio gôl gynnar. Yn raddol dechreuodd Brynrefail chwarae pêl droed o safon uwch na'u gwrthwynebwyr a cyn hir sgoriodd Osian Kingston y gôl gyntaf. Cyn hir ychwanegodd Osian ei ail gôl ac yr oedd hi'n edrych yn gyfforddus. Ond na, daeth Caergybi yn ôl i'r gêm a sgorio gôl ychydig cyn hanner amser i wneud y sgôr ar yr egwyl yn 2-1.

Fe wnaeth Ben Jones arbediad da ar ddechrau'r ail hanner a gyda Iwan Price, Siôn Phillips, Tomos Williams a Jamie Stevenson yn reng ôl cryf a chadarn dechreuodd Brynrefail feistroli'r gêm. Nid oedd yn syndod felly i'r tîm ychwanegu dau gôl arall cyn diwedd y gêm trwy Rhodri Williams a Gerallt Jones a gwneud y sgôr terfynol yn 4-1.

HOGIA NI – DA 'DE